

DARGANFOD ARCHWILIO PROFI

TRWYN Y FUWCH, LLANDUDNO

BETH SYDD Y TU MEWN

02 TYMHORAU BRIG:
RYDYM NI AR AGOR
DRWY'R FLWYDDYN

04 Y GWANWYN A'R HAF

06 YR HYDREF A'R GAEAF

08 LLANDUDNO

12 AR HYD YR ARFORDIR

16 YR EISTEDDFOD
GENEDLAETHOL,
CELF, ADLONANT,
DIWYLLIANT A
CHREFFTAU

20 HANES A
THREFTADAETH

24 BETWS-Y-COED

26 CEFN GWLAD A
GWEITHGAREDDAU
AWYR AGORED

30 BWYD A DIOD

32 BETH SY'N NEWYDD

33 ADLONANT GYDA'R
NOS

34 GWYLIAU A
DIGWYDDIADAU

38 LLE I AROS

53 HYSBYSEBION
ATYNIADAU

56 CANOLFANNAU
CROESO

60 MAPIAU A
GWYBODAETH
AM DEITHIO

2019 yw 'Blwyddyn Darganfod' Cymru. Mae'n thema sy'n ffitio Llandudno a Sir Conwy i'r dim. Yn unigryw, mae'r ardal hon yn crynhoi popeth sy'n arbennig am Gymru mewn un pecyn taclus...ei harfordir a'i chefn gwlad syfrdanol, ei threftadaeth a'i diwylliant cyfoethog, ei gweithgareddau awyr agored a'i hatyniadau dan do, ei bwyd, ei gwyliau a'i hadloniant.

Mae'n gasgliad o brofiadau na ddewch chi o hyd iddyn nhw yn unman arall. Dechreuwch ar bendraw pier retro Llandudno a theithiwch i fryniau a mynyddoedd digyfnewid Eryri, ac fe ddewch chi ar draws popeth o Pwnsh a Jwdi i gelfyddyd gyfoes orau'r byd, profiadau awyr agored unigryw (syrffio mewndirol unrhyw un?) i glamp o gestyll cadarn, atyniadau newydd cyffrous a'r hen ffefrynnau.

Does yna ddim prinder pethau da bywyd chwaith. Arhoswch mewn gwestai crand ar lan y môr (mae yma'r dewis gorau yng Nghymru) neu guddfannau gwledig llawn cymeriad. Ewch am fwyd i fistros a bwytaï sy'n gweinio'r cynnyrch lleol gorau. Rhowch gynnig ar adloniant bywiog gyda'r nos yn ein theatrau, ein tafarndai a'n clybiau – a chofiwch am Yr Un, sef Eisteddfod Genedlaethol Cymru, fydd yn dod i dref farchnad hanesyddol hardd Llanrwst yn 2019.

Treuliwch amser yn darganfod y cyfan. Mae'r rhan hon o Gymru'n croesawu ymwelwyr drwy gydol y flwyddyn. Mae teithiau hamddenol y gwanwyn ar hyd promenâd dilychwin Llandudno a siopa Nadolig ym Metws-y-coed yn ddau ben i'r digwyddiadau pob tymor.

I gael y darlun cyfan, tyrchwch drwy dudalennau'r cyhoeddiad hwn. Mwynhewch y darllen.

Roger Thomas, golygydd ac awdur llyfrau teithio.

TYMHORAU BIG

EFALLAI EI BOD HI'N OER Y TU ALLAN, OND WEDI'CH LAPIO YN EICH CÔT AEAF, FE DEIMLWCH CHI GYNHESRWYDD A GORFOLEDD SY'N GWNEUD BYWYD WERTH EI FYW YNG NGHANOL Mynyddoedd Eryri.

Os oes yna un neges y byddem ni wir yn hoffi ei chyfleu yn y llawlyfr hwn, dyma ydi hi: mae Llandudno a Sir Conwy ar agor am fusnes 24/7/12, sy'n golygu trwy'r dydd, bob dydd, bob mis o'r flwyddyn.

Ac mae un flwyddyn yn hafal i 365 o wahanol brofiadau. O hafau cynnes ar lan y môr i aeafau'n swatio mewn tafarndai gwledig clyd, o wyllo'r bywyd gwyllt yn y gwanwyn i deithiau cerdded hydrefol yn y coedwigoedd, mae yna ddigon i'w weld a'i wneud beth bynnag fo'r tymor.

Mae yna neges arall hefyd, y gellir ei chrynhai mewn tri gair: antur, diwylliant, tirwedd. Dyma'r ysbrydoliaeth y tu ôl i Flwyddyn Darganfod Cymru 2019. Ar y tudalennau nesaf, byddwn yn dangos i chi sut i gael profiad unigryw o'r tri ar hyd a lled ein harfordiroedd ac ymysg ein bryniau a'n mynyddoedd... bob adeg o'r flwyddyn.

DYMA BUMP O'R PROFIADAU GORAU I'W CAEL YN
LLANDUDNO YN YSTOD Y

GWANWYN A'R HAF

1 BODNANT YN EI BLODAU.

Mae'n rhy dda i'w golli. Mae Bwa Tresi Aur enwog Gerddi Bodnant yn ffrwydro'i blodau euraidd o ddiwedd mis Mai ymlaen. Mae'r twnnel 180 troedfedd/55 metr hwn o flodau melyn llaes yn gyflwyniad perffaith i ardd sy'n dechrau dangos ei lliwiau ymhobman ar ôl trwmgwsg y gaeaf.

2 DILYN Y LLWYBR.

Ewch i weld ein harfordiroedd ar ddwy olwyn drwy feicio rhannau (neu'r cwbl, os oes gennych chi ddigon o egni) o Lwybr Beicio Conwy sy'n 30 milltir o hyd, gydag arwyddion i'ch arwain ar hyd yr arfordir o Lanfairfechan i Fae Cinmel. Byddwch hefyd yn dilyn rhan o Ffordd Gogledd Cymru sydd newydd ei lansio, sef y llwybr cenedlaethol newydd o Gaer i Gaergybi.

3 CERDDED Y MURIAU.

Adnewyddwch eich ysbryd drwy gerdded muriau canoloesol Conwy. Ynghyd â Chastell carreg tywyll, hollbresennol Conwy, mae'r gylchdaith hon sy'n 3/4 milltir o hyd, y fwyaf cyflawn yn Ewrop, yn gwarchod drysfa o lonydd a strydoedd cefn cul.

4 ROWEN WLEDIG.

Rowen yw un o bentrefi tlysaf Cymru. Mae hynny'n arbennig o wir yn y gwanwyn, pan mae gerddi ei fythynnod carreg traddodiadol yn llawn blodau. Dilynwch y llwybrau i fyny i Fynydd Tal-y-Fan cyn dychwelyd i dafarn y pentref am lymaid bach haeddiannol.

5 LLAWN BYWYD.

Dyma sut y byddwch chi'n teimlo ar frig Y Gogarth, sef y pentir sy'n ymgodi fel anghenfil y môr uwch tref Llandudno. Mae'r hafan bywyd gwyllt hon yn un o safleoedd pwysicaf Prydain am blanhigion prin. Fe welwch chi flodau gwyllt y gwanwyn yn sbecian drwy'r glaswelltir calchfaen, adar y môr yn ymgynnull ar y clogwyni a dros 20 o rywogaethau o loŷnod byw yn chwyrlio o'ch cwrpas.

1 P AM...

Pier. Ewch am dro yn awel gynnes yr haf ar hyd pier bendigedig Llandudno, yr hiraf yng Nghymru.

Promenâd. Yna trowch am y prom. Fel y pier, mae'n ymestyn ymlaen ac ymlaen – yr holl ffordd ar hyd glan môr dilychwin sy'n gwneud Llandudno'n destun cenfigen trefi glan môr eraill.

Pwnsh a Jwdi. Cymrwch seibiant i wyluo sioe Professor Codman, un o ffefrynnau Llandudno ers dros 150 o flynyddoedd.

2 AR FRIG Y DON.

Nid tonnau'r môr, ond Adventure Parc Snowdonia yn Nyffryn Conwy, sef lagŵn syrffio mewndirol cyntaf y byd. Mae technoleg chwyldroadol yn sicrhau'r don berffaith bob 90 eiliad.

3 I FFWRDD Â NI.

Ar ddiwrnod braf o haf, 'does unman gwell i fynd na Mynydd Hiraethog, y rhostir sy'n ymlwybro draw i'r pellter o dan awyr di-ben-draw. Ewch i Ganolfan Ymwelwyr Llyn Brenig yn gyntaf i gael eich traed danoch ac i ddysgu am deithiau cerdded, teithiau beicio, manau pysgota a chwaraeon dŵr lleol.

4 MAE'N BRAF YN YR HAF.

Mwynhewch goctel, gwin neu gwrw lleol ar deras y King's Head, tafarn hynaf Llandudno – a chofiwch am Headstock, gŵyl gerddoriaeth yr haf.

5 COLWYN CŴL.

Mae popeth wedi newid ym Mae Colwyn. Cerddwch ar hyd promenâd Porth Eirias sydd wedi'i ailwampio, ewch am bryd o fwyd i fistro smart Bryn Williams ger y môr a mwynhewch gampau ar y dŵr yng Nghanolfan Chwaraeon Dŵr Bae Colwyn. Yna beth am fynd yn fwy traddodiadol ac ymweld â'r Sŵ Fynydd Gymreig, sef sŵ gadwraeth Bae Colwyn.

LLIWIAU'R HYDREF

DYMA FLAS CRYNO AR WEITHGAREDDAU'R HYDREF A'R GAEAF.

1 EWCH DRAW AM DRO I'R COED...

Fe ddechreuwn ni gyda rhywbeth coediog – wedi'r cyfan, mae lliwiau cochlyd, rhydlyd ein coetiroedd yn golygu eu bod ar eu gorau yr adeg hon o'r flwyddyn. Ewch i Goed y Gopa, sef coetir cymysg trawiadol o dderw, llwyfenni, ynn, pinwydd a llarwydd uwch Abergele. 'Mae'n sioe ysbennnydd o liwiau'r hydref,' meddai cylchgrawn Coed Cadw.

2 BLAS AR GONWY.

Mae ein arlwy o fwyd yn fwrllwm o ddyfeisgarwch, gyda bwydlenni'n cynnwys popeth o fwytaï crand i'r siopau 'Sgod a Sglods gorau. Ewch chi ddim o'i le yng Nghonwy, er enghraifft. Rhowch gynnig ar Signatures, bwyty Aberconwy Resort and Spa sydd wedi ennill gwobrau, neu beth am drio blasau beiddgar Watson's Bistro? Neu'r Midland sydd newydd agor, lle mae Sbaen a Gogledd Cymru'n dod ynghyd gyda dewis o tapas ag elfennau o fwyd môr a chynnyrch lleol.

3 DAN DO.

O'r gorau, mae'n rhaid i ni gyfaddef. Mae hi weithiau'n bwrw glaw yn yr hydref. Ond peidiwch â phoeni. Mae yna ddigon i'w gwneud dan do – a dan ddaear. Mae Go Below ym Metws-y-coed yn daith danddaearol llawn antur drwy hen fwyngloddiau gwag ('Bunt am wefr, mae'n ddigon posib mai hwn yw'r diwrnod allan sy'n cynnig y gwerth gorau am arian yn y DU,' yn ôl The Sunday Times). Ddim yn un i gael ei drechu, mae Llandudno'n cynnig Mwyngloddiau Copr y Gogarth i chi eu harchwilio, un o fwyngloddiau metel hynaf y byd sydd ar agor i'r cyhoedd.

4 GWAITH CELF.

Dilynwch yr Helfa Gelf bob penwythnos ym mis Medi, pan fydd stiwdios a gweithdai ledled Gogledd Cymru'n agor eu drysau i ymwelwyr.



5 AMSER AGOR.

Yn hydref 2019, bydd Canolfan Ddiwylliant arloesol Conwy'n agor, lle bydd y celfyddydau a diwylliant (mae gennym ni ddigon o'r ddau) yn dod yn fyw mewn arddangosiadau rhyngweithiol.

GAEAF CLYD

1 SIOPA NADOLIG.

Anghofiwch am Amazon. Mae yna ryw hud arbennig yn gysylltiedig â siopa Nadolig – yn enwedig os dewch chi draw atom ni. Mae Ffair Nadolig Llandudno'n enwog o hwyllog, ac am fwy o syniadau gwych am anrhegion, ewch i siopau arbenigol Betws-y-coed. Ym Melin Wlân Trefriw gyfagos, fe allwch chi bori drwy gynhyrchion sydd wedi'u gwneud ar y safle. Ac mae'r siopau mwyaf a gorau yng Ngogledd Cymru i'w gweld yn Llandudno (mae siop Oriel Mostyn yn anhygoel am gelf a gemwaith).

2 RHYFEDDODAU'R RHAADR...

Mae'r Rhaedr Ewynnol fel arfer yn cadw ei arddangosfeydd gorau at y gaeaf. Yn ôl Cyfoeth Naturiol Cymru, mae'r llwybr i'r rhaedr o Ty'n Llwyn, 4 milltir i'r gorllewin o Fetws-y-coed yn un o 'Ddeg Llwybr Cerdedd Gorau'r Gaeaf'. Ac os nad yw un rhaedr yn ddigon i chi, ewch draw i Rhaedr trawiadol y Graig Lwyd yr ochr arall i Betws.

3 ERYRI DAN EIRA.

Nawr yw'r amser i weld pegynau Eryri dan fantell wen. Dysgwch sut i fynd i'r afael â'r mynyddoedd hyn dan hyfforddiant arbenigol ar gyrsiau awyr agored yng Nghanolfan Fynydd Genedlaethol Plas y Brenin yng Nghapel Curig. Maen nhw'n cynnwys popeth o ddringo i ganwio, beicio mynydd i heicio. Os ydych chi'n bwriadu mynd ar eich antur awyr agored eich hun, ewch i wefan Mentro'n Gall Cymru (www.adventuresmartwales.com) – bydd y cyngor sydd yno am y tywydd, offer a sgiliau yn help mawr i chi gadw'n ddiogel.

4 TAMAID O ADLONANT.

Pop, comedi, opera, drama, dawns... maen nhw i gyd ar y rhaglen yn Venue Cymru, lleoliad adloniant a chelfyddydau mwyaf Gogledd Cymru. Ydi o'n dda? O, ydi mae o! (mae pantomeim ar y rhaglen ar gyfer tymor y gaeaf hefyd).

5 YN Y TYWYLLWCH.

Ar nosweithiau oer a chli'r y gaeaf, mae'r awyr ffres yn ddu fel y fagddu – amodau perffaith i syllu ar y sêr. Ewch tua'r brynau i osgoi llygredd golau. Mae Llyn Geirionydd uwch Dyffryn Conwy yn ddewis da. Mae yno deimlad gwirioneddol anhygyrch, yn enwedig yn y nos.



LLANDUDNO

MAE PAWB YN GWIRIONI AR

DYMA, MEWN UN DARLUN, PAM MAE PAWB YN GWIRIONI AR LANDUDNO. EDRYCHWCH AR Y PIER A'R PROM DILYCHWIN YNA. DYDYN NHW DDIM WEDI NEWID LLAWER ERS EU CODI'N WREIDDIOL YMHELL DROS GANRIF YN ÔL (RHYWBETH NA ALLWCH CHI EI DDWEUD AM DREFI GLAN MÔR ERAILL).

Yn syml, mae Llandudno'n glasur o'i fath; yn hynaws, yn ddihalog a heb ei ddifetha. Ond mae'n llwyddo i osgoi bod yn hen ffasiwn ac ar ôl yr oes. Dyna'r gyfrinach i'w gymeriad. O'i wreiddiau Fictoraidd, mae wedi tyfu'n gyrchfan gyfoes unigryw, y math o le y gallwch chi fynd i godi cestyll tywod neu weld celfyddyd fodern, edmygu pensaernïaeth o'r oes o'r blaen a mwynhau'r adloniant diweddaraf, mynd i siopa neu wylïo bywyd gwyllt, teithio ar hen dram neu mewn car cebl alpaidd.

Dyma yw gwyliau glan y môr fel y dylai fod.

TROWCH Y
DUDALEN AM
FWY



PIER LLANDUDNO, LLANDUDNO

LLANDUDNO 'N FYW

AETH Y GOLYGYDD A'R AWDUR LLYFRAU TEITHIO, ROGER THOMAS, A'I WRAIG LIZ AM WYLIAU BYR DAU DDIWRNOD. GALLWCH DDILYN ÔL EU TRAEU UNRHYW ADEG O'R FLWYDDYN. BETH BYNNAG FO'R TYMOR, MAE LLANDUDNO'N LLAWN BYWYD.

DIWRNOD 1

10am Fe gychwynnwn ni o'r top. A gyda hynny, rydw i'n cyfeirio at gopa'r Gogarth, y pentir 207m o uchder sy'n rhan annatod o gymeriad Llandudno.

Hyd at fis Hydref, fe allwch chi gyrraedd yno ar dramffordd neu mewn car cebl. Yn y gaeaf, mae'n daith fer, serth yn y car o lan y môr. Mae ein golygfa trwy lygad aderyn yn gweld bwa'r bae a mynyddoedd Eryri. Mae'r Gogarth ei hun yn unigryw o amrywiol, yn gartref i barc gwledig, mwyngloddiau copr hynafol ac amrywiaeth anhygoel o fywyd gwyllt, gan gynnwys geifre o eifr Cashmiri a rhai o blanhigion prinnaf y byd.

11.30am Amser paned. Mae yna ddewis gwych o siopau coffi - a llawer mwy - ar strydoedd siopa prysur Llandudno, sy'n ymochel dan ganopi, yn union y tu ôl i'r prom.

2pm Ar ôl cinio, rydym ni'n gwneud beth mae pawb arall yn ei wneud - mynd am dro ar hyd y pier. Mae pier hiraf Cymru'n mynd â ni bron i hanner milltir allan i'r môr, a bob cam o'r ffordd, rydym ni'n mwynhau golygfeydd o'r glan môr perffaith yna â'i liwiau blwch paent - gwledd go iawn i'r llygaid - sy'n gwneud Llandudno'n lle mor arbennig.

3.30pm Rydym ni'n dysgu mwy am Llandudno - o'i wreiddiau hynafol i'w esgoriad fel cyrchfan wyliau - yn amgueddfa'r dref (sydd bellach ar gau er mwyn ei adnewyddu, ond fydd ailagor yn ystod gaeaf 2019 - ewch i llandudnomuseum.co.uk). Yna rydym yn galw i mewn i Amgueddfa'r Home Front Experience, sef amgueddfa fechan lle gallwch chi ymgolli'n llwyr ym mhrofiadau'r Ail Ryfel Byd.

7pm Amser bwyd. Mae yna ormod o ddewis bron, ond rydym yn penderfynu ar Fwyty Dylan's yn ei leoliad anhygoel ar lan y môr. Mae'r bwyd cystal bob tamaid â'r lleoliad - fe fyddwn i'n argymhell ein dewis ni o silod mân a draenog y môr.

DIWRNOD 2

10am Rydym yn galw heibio Canolfan Groeso Llandudno (yng Nghanolfan Fictoria ar Mostyn Street). Yn ogystal â chynnig gwybodaeth leol am bethau i'w gweld a'u gwneud, fe gewch chi hefyd syniadau gwych am anrhegion ymysg ei ystod lawn o greffttau, bwydydd a diodydd lleol.

Mae cysylltiadau Llandudno'r 19eg Ganrif ag Alice Liddell (yr Alys yng Ngwlad Hud wreiddiol) yn hynod ddiddorol. Rydym yn olrhain ei chysylltiadau â'r dref ar Lwybr Alys (the Alice Trail). Cychwynnwn o'r ganolfan groeso a, gyda chymorth y map (mae yna ap ar gael hefyd o alicerowntrails.co.uk), rydym yn dilyn olion traed efydd Y Gwningen Wen heibio cymeriadau enwog ei byd hudolus, fel yr Hetiwr Hurt a Brenhines y Calonnau. Dyma ffordd ddelfrydol o ddod i adnabod y dref hon llawn treftadaeth, nad yw wedi newid rhyw lawer ers amser Alys.

Hanner dydd Amser brechdan a thywod. Rydym yn bachu brechdan ac yn anelu at Draeth y Gogledd, sef traeth poblogaidd lle cewch chi fynd am daith ar gwch, reid ar gefn mul a gweld sioe Pwnsh a Jwdi. Mae yna gryn dipyn o adeiladu cestyll tywod hafaidd yn mynd ymlaen o'n cwmpas ni (er, a dweud y gwir, mae'n well gen i'r traeth ar ei wedd ffres, adfywiol yn y gaeaf). Mae ail draeth Llandudno - Penmorfa - yn dawel braf drwy'r flwyddyn, gyda'r olygfa odidog o'r mynyddoedd yn fonws ychwanegol.

2.30pm I ffwrdd â ni am Mostyn, un o fy ffefrynnau personol i ac un o orielau blaenllaw Cymru, lle mae gwaith celf arloesol (a siop anrhegion werth chweil) yn cael ei arddangos mewn adeilad brics coch addurnedig.

4pm Dydyn ni ddim wedi cael digon ar siopa eto, felly i ffwrdd â ni am Barc Llandudno, y parc manwerthu modern ar gyrion y dref.

7pm Amser am damaid o adloniant yn Venue Cymru, cyfadeilad adloniant mwyaf Gogledd Cymru, sy'n llwyfannu amrywiaeth aruthrol o berfformiadau serenog. Mae'n lleoliad o bwys sy'n dangos cynrychiadau gorau'r byd - popeth o sioeau mawr y West End ac Opera Cenedlaethol Cymru i enwogion y byd pop, comedi a drama.

DYDDIAD I'R DYDDIADUR

DYMA RAI O WYLIAU A DIGWYDDIADAU LLANDUDNO YN 2019. I GAEL YR HOLL WYBODAETH, EWCH I DUDALENNAU 34/37.

**16 CHWFROR
RALI CAMBRIA**
Llandudno a Dyffryn Conwy
cambrianrally.co.uk

**4-6 MAI
STRAFAGANSA FICTORAIDD
LLANDUDNO**
victorian-extravaganza.com

**13-15 MEDI
LLAWN07**
Gŵyl aml-gelfyddyd am ddim
Llandudno llawn.org

ARFORDIR HEB EI AIL

DIM OND RHAN O'N HANES ARFORDIROL NI YW LLANDUDNO. MAE YNA GYMUNEDAU YR HOLL FFORDD AR HYD EIN HARFORDIR. A PHOB UN YN LLAWN PETHAU I'W GWELD A'U GWNEUD. DYMA ARWEINIAD BYR I'R HYN Y GALLWCH CHI DDOD O HYD IDDO AR EIN TRAETHLIN. O'R DWYRAIN I'R GORLLEWIN.

BAE CINMEL A THOWYN

SUT LE YDI O? Mae traeth gwyn llydan Bae Cinmel yn boblogaidd ar gyfer gweithgareddau arfordirol cyffrous fel barudfyrddio, caiacio a bordhwylio, a Thowyn gerllaw yw'r lle i fynd am beiriannau chwarae, arcêds ac adloniant ger y traeth.

RHY DDA I'W GOLLI. Ewch am daith natur drwy dirwedd eang Gwarchodfa Natur Twyni Cinmel, sef ehangder digyffwrdd lle gwelwch chi adar môr di-rif uwch eich pen a morloi llwyd yn nofio oddi ar yr arfordir. Os mai antur sy'n mynd â'ch bryd, ewch i Barc Hamdden Tir Prince, lle gwelwch chi rasys ceffylau harnais Americanaidd a reidiau ffigar-êt cyflym, neu rhowch gynnig ar y gwibgerti a'r reidiau ffair yn Knightley's Fun Park.

ABERGELE A PHENSARN

SUT LE YDI O? Rydych chi'n cael dau am bris un yn y fan yma. Wedi'i leoli ychydig oddi wrth arfordir, ac yn fan cychwyn gwyh ar gyfer teithiau cerdded gwledig, mae tref hanesyddol Abergele yn llawn siopau annibynnol atyniadol, ac mae traeth mawr tywodlyd Pensarn yn cynnig hwyl glan môr fesul bwcedaid.

RHY DDA I'W GOLLI. Ewch am dro i fyny i Bryn Tŵr sy'n 178m (583 troedfedd) o uchder. Yn ôl chwedl leol, roedd yn arfer bod yn safle un o dyrau gwylio oes Elisabeth, yn amddiffyn yr arfordir rhag morladron; ond heddiw, mae'n fan perffaith i edmygu'r golygfeydd anhygoel o'r môr. Neu ewch draw i'r traeth. Mae'n aml yn dawelach na'i gymdogion arfordirol mwy adnabyddus, felly bydd digon o le i chi fwynhau'r tywod a'r môr – a'r haul, os ydi'r haf diwethaf yn ffon fesur o unrhyw fath. Os ydych chi'n golffiwr brwd, cofiwch ddod â'ch clybiau gyda chi. Mae yma hefyd gwrs golff 18 twll ardderchog.



BAE COLWYN

SUT LE YDI O? Er fod Bae Colwyn wedi bod yn denu ymwelwyr ers oes Fictoria, does arno ddim ofn symud gyda'r oes. Yn y blynyddoedd diweddar, mae glan y môr wedi cael ei drawsnewid, gyda datblygiad Porth Eirias (cartref bistro'r cogydd Bryn Williams, sydd wedi ennill gwobr Michelin), a'r traeth a godwyd yn newydd sbon.

RHY DDA I'W GOLLI. Dewch i fwynhau ychydig o antur yn y dŵr yng Nghanolfan Chwaraeon Dŵr Bae Colwyn (hefyd ym Mhorth Eirias), sy'n cynnig cyrsiau bordhwyllo, hwylio, rhwyf-fyrddio a gyrru cychod modur. Ar dir sych, gallwch ymweld â'r Sŵ Fynydd Gymreig, sy'n gartref i greaduriaid prin ac anifeiliaid sydd mewn perygl, fel y pandas cochion, llewpardiaid yr eira a theigrod Swmatra.

LLANDRILLO-YN-RHOS

SUT LE YDI O? Mae'r dref harbwr fach hon yn gwasgu personoliaeth enfawr i mewn i becyn bychan. Dyna i chi'r promenâd traddodiadol (delfrydol ar gyfer mynd am dro hamddenol), cychod lliwgar yn dowcio yn yr harbwr, plant yn dal crancod ar fin y dŵr a theatr bypedau hyfryd, yr unig un o'i math ym Mhrydain. Rhowch y rhain i gyd at ei gilydd a dyna i chi gyrchfan fach berffaith.

RHY DDA I'W GOLLI. Mae dyfroedd clir yr ardal hon yn ferw o bysgod o bob lliw a llun. Ewch i chwilio am un mawr ar drip pysgota môr o'r harbwr. Neu arhoswch ar dir sych i grwydro llu o siopau bach annibynnol Llandrillo-yn-Rhos, sy'n gwerthu hen bethau a dillad a gemwaith hyfryd o'r oes a fu.

CONWY A DEGANWY

SUT LE YDI O? Mae'n debyg eich bod chi wedi clywed am gei hanesyddol Conwy, hen gei go iawn ar fin y dŵr (sydd hefyd yn gartref i'r 'Tŷ Lleiaf ym Mhrydain', sef bwthyn pysgotwr anhygoel o fychan) sy'n swatio o dan gastell a muriau canoloesol y dref. Ond mae'n werth archwilio'r foryd gyfan, bob ochr i'r lan. Ar ochr Conwy, fe welwch chi Conwy Quays, sef marina fodern gyda golygfeydd bendigedig ar draws y dŵr o farina chwaethus llawn cychod arall ar yr arglawdd gyferbyn yn Deganwy. Mae'r ddau'n barhad o draddodiadau mordeithiol a morwrol cryf yr ardal.

RHY DDA I'W GOLLI. Gallwch weld y cyfan ar drip cwch o gei Conwy. A phrofi cregyn gleision blasus Conwy.

PENMAENMAWR

SUT LE YDI O? Ffefryn i'r teulu. Ar draeth tywodlyd eang a phromenâd Penmaenmawr mae yna bwl padlo, man chwarae i blant a pharc sglefr-fyrddio – lle perffaith i ddiddanu ymwelwyr iau. Mae yno hefyd deithiau cerdded a chwaraeon dŵr gwych a chlwb hwylio prysur.

RHY DDA I'W GOLLI. I gael y profiad glan môr clasurol hwnnw, llogwch un o gytiau glan môr pren Penmaenmawr. Wedi'u lleoli'n gyfleus wrth ymyl y caffi ar y promenâd, maen nhw'n ganolbwynt delfrydol i ddiwrnod o hwyl ar y traeth.

LLANFAIRFECHAN


SUT LE YDI O? Pentref bach tlws gyda thraeth mawr tywodlyd sy'n ddelfrydol ar gyfer chwarae gemau, padlo a chodi cestyll tywod. Mae hefyd yn fan cychwyn da ar gyfer teithiau cerdded i'r brynau cyfagos. Ewch am y tir uwch ac fe gewch chi'ch gwobrwyo gyda golygfeydd bendigedig dros y Fenai tuag Ynys Môn.

RHY DDA I'W GOLLI. Cofiwch eich sbienddrych! Mae Llanfairfechan yn agos at Warchodfa Natur Traeth Lafan, sy'n gynefin arfordirol cyfoethog i adar môr fel pïod y môr, y wyachfawr gopog a'r hwyaden ddanheddog fronrudd.



ENILLWYR GWOBRAU

Mae nifer o'n traethau hyfryd ni wedi ennill gwobr fawreddog y Faner Las ac/neu Wobr Glan y Môr mewn cydnabyddiaeth o'u glanweithdra ac ansawdd y dŵr. Mae Bae Cinmel, Abergel (Pensarn), Bae Colwyn/Llandrillo-yn-Rhos, Traeth y Gogledd Llandudno, Penmorfa Llandudno, Penmaenmawr a Llanfairfechan oll wedi ennill y gwobrau glan môr gorau.





CYMRU'N Diddanu

Mae'n un o wyliau mwyaf y byd, ac eleni, mae'n dod i Sir Conwy. Ym mis Awst 2019, mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn glanio yn Llanrwst am wythnos gyfan o ddathlu cerddoriaeth, celf a diwylliant unigryw Cymru. Mae'r Eisteddfod yn gyfuniad hudolus o draddodiadau a hwyl y 21ain Ganrif, sy'n denu tua 150,000 o ymwelwyr bob blwyddyn.

Canolbwynt yr Eisteddfod yw'r cystadlaethau barddoni, llefaru a chanu sy'n denu 6,000 o gystadleuwyr o bob cwr o Gymru. Ond rhan yn unig o'r digwyddiadau yw hynny. Fe welwch chi hefyd weithgareddau a digwyddiadau i'r teulu cyfan, yn ogystal â Maes B (gŵyl roc a phop unigryw yr Eisteddfod). Ac nid ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn unig mae hi. Darperir gwasanaethau cyfieithu ym mhrif bafiliwn y cystadlu ac mae posib ymuno ag ambell i wers Gymraeg ar y maes hyd yn oed.

Dyma barti mwyaf Gogledd Cymru eleni, ac mae yna wahoddiad i chi.

**AM FWY O WYBODAETH
AM GELF A DIWYLLIANT,
TROWCH Y DUDALEN**





**O SAFBWyNT CELF A
DIWYLLIANT, YR EISTEDDFOD
GENEDLAETHOL YN
LLANRWST YW SEREN
Y SIOE YN 2019. OND
DIM OND UN RHAN YW'R
DATHLIAD WYTHNOS O
HYD HWN YMYSG ARLWY
DIWYLLIANNOL CYFOETHOG
SYDD YNO I CHI EI
DDARGANFOD DRWY
GYDOL Y FLWYDDYN.**

CANOLBWYNT DIWYLLIANNOL

Mae Canolfan Ddiwylliant newydd Conwy i fod i agor yn nhymer yr hydref 2019, gan ddod â threftadaeth Conwy i fywyd yr 21ain Ganrif. Wedi'i leoli mewn adeilad modern trawiadol gyda golygfeydd dros furiau a chastell y dref, bydd yn gartref i lyfrgell ac Archifdy Conwy, yn ogystal â bod yn ganolfan gelfyddydau a threftadaeth fydd yn cynnwys arddangosiadau ac arddangosfeydd o gasgliadau hanesyddol y sir.

AR Y LLWYFAN

Ewch draw i Venue Cymru yn Llandudno am raglen llawn dop o adloniant theatrig. Dewiswch o bantomeim teuluol traddodiadol (poblogaidd iawn dros y Nadolig), perfformiadau gan Opera Cenedlaethol Cymru, cerddoriaeth bop, perfformiadau dawnys a dramâu poblogaidd o'r West End. Theatr Colwyn, Bae Colwyn yw'r theatr a sinema hynaf sy'n gweithio yng Nghymru – ac mae'n dal i ffynnu, wedi'i moderneiddio bellach i gynnig profiad adloniadol yr 21ain Ganrif. Mae Llandrillo-yn-Rhos yn gartref i fath gwahanol iawn o brofiad theatrig. Theatr yr Harlequin yw'r unig theatr bypedau barhaol a'r gyntaf o'i math ym Mhrydain. Os mai ffilmiau sy'n mynd â'ch bryd, mae'r holl deitlau diweddaraf i'w gweld yn Cineworld yng Nghyffordd Llandudno.

ORIAU YN YR ORIEL

Mae Mostyn yn Llandudno yn fwy na dim ond un o orielau celf gyfoes gorau'r DU. Mae hefyd yn gyflawniad pensaernïol cyfareddol, gyda'i ffasâd Edwardaidd â'i feindwr aur yn cyflwyno cyfres o ardaloedd mewnol trawiadol o fodern. Y tu mewn, fe welwch chi raglen gyfnewidiol o arddangosfeydd sy'n dangos y goreuon ymhlith celf a chrefft gyfoes o Gymru a thu hwnt. Mae yno hefyd siop chwaethus yn gwerthu gemwaith, gwaith cerameg, printiau a llyfrau.

DARLUN PERFFAITH

Mae'r Academi Frenhinol Gymreig mawr ei bri yng Nghonwy yn canolbwyntio ar ragoriaeth gelfyddydol yng Nghymru, gyda chymysgedd o waith hanesyddol a chyfoes. Mae yna fwy o gelfyddyd anhygoel i'w gweld yn Ffin y Parc yn Llanrwst, sef plasty crand sy'n arddangos rhai o'r artistiaid gorau sy'n gweithio yng Nghymru ochr yn ochr â'r goreuon ymhlith celf gyfoes yr 21ain Ganrif. Wedi'u harddangos mewn ystafelloedd wedi'u dylunio'n berffaith, mae pob darn o waith ar gael i'w brynu. Peidiwch â phoeni os nad yw eich cyllideb yn gadael i chi fynd â darn o waith gartref gyda chi. Mae'r cacennau sydd ar werth yn y caffei yn gampweithiau ynddynt eu hunain.

AR GRWYDR

I gael golwg gynhwysfawr ar ein harlwy celf a chrefft, dilynwch yr Helfa Gelf, sef digwyddiad stiwdios agored mwyaf Cymru. Bob mis Medi, bydd cannoedd o artistiaid o bob cwr o ogledd Cymru'n croesawu ymwelwyr i'w stiwdios, gan gynnig cipolwg hynod ddiddorol ar y broses greu.

MAE'R LLWCH YN DRWCH AR EI
DDIBEN GWREIDDOL. OND DOES
YNA DDIM DIANC RHAG BŴER A
GRYM CASTELL CONWY, SYDD
HEB LEDDFU'R UN GRONYN
DROS Y CANRIFOEDD.

Fe'i adeiladwyd yn y 13eg Ganrif fel rhan o 'gylch haearn' o gaerau Brenin Edward I yn ei ryfelgyrch yn erbyn Cymru. Mae ei furiau a'i dyrrau ymgodol, yn erbyn cefndir o fynyddoedd Eryri a'r môr, yn dal i sefyll yn uchel – gymaint felly fel bod y castell, ynghyd â muriau tref Conwy, sydd wedi'u cadw mewn cyflwr eithriadol o dda, yn un o Safleoedd Treftadaeth y Byd.

Dyma un o gestyll gorau Ewrop – ond un bennod yn unig ydyw yn ein hanes a'n diwylliant cyffrous ni. Dyna i chi Ddolwyddelan unig er enghraifft, cartref tywysogion Cymru, yn sefyll ar garreg frig ymysg copaon Eryri. Mae adfeilion llawn awyrgylch Castell Deganwy wedi'u lleoli mewn man godidog yn edrych dros arfordir Gogledd Cymru. Yn Llanrwst, fe welwch chi Gastell Gwydir llawn ysbrydion o oes y Tuduriaid. Ac yn olaf, dyna Gastell Gwrych yn Abergele, sy'n blasty canoloesol a godwyd ddechrau'r 19eg Ganrif.

HANES BYW



CASTELL DOLWYDDELAN

-MEISTRI'R- GORFFENNOL

YM MLWYDDYN DARGANFOD CYMRU, DOES UNMAN GWELL I GLODDIO I'R GORFFENNOL. MAE O'N CWMPAS YM MHOBMAN, MEWN CESTYLL CANOLOESOL, SAFLEOEDD CYNHANES AC YN CHWEDLAU'R BRENHINOEDD A'R TYWYSOGION.



I GAEL MWY O FANYLION
AM GYNLLUNIAU AR GYFER
CANOLFAN DDIWYLLIANT
NEWYDD CONWY, TROWCH
I DUDALEN 32



BACH A MAWR

Mae ein hanes yn dod ym mhob lliw a llun. Ar gei Conwy, fe welwch chi'r Tŷ Lleiaf ym Mhrydain Fawr. Yn mesur dim ond 1.8metr/6 troedfedd wrth 3metr/10 troedfedd, roedd rhywun yn byw yn y tŷ teras bychan bach hwn tan 1900, ond mae bellach yn cael ei gadw fel capsawl amser bychan o orffennol Conwy. Ar ben arall y raddfa, mae Plas Mawr. Y tŷ tref crand hwn o oes Elisabeth, sydd o fewn muriau tref gorlawn Conwy, yw'r gorau o'i fath yn y DU. Mae'r ystafelloedd helaeth wedi'u hadfer yn berffaith i arddangos ysblander y 16eg Ganrif, ac mae'r arddangosiadau sgrin gyffwrdd rhyngweithiol yn dod â hanes yr adeilad yn fyw.

YSTAFELLOEDD TRWY'R OESOEDD

Mae llu o drysorau pensaernïol Conwy hefyd yn cynnwys Tŷ Aberconwy o'r 14eg Ganrif. Dyma un o dai tref hynaf Cymru sy'n cynnig taith trwy sawl cyfnod mewn hanes. Mae'r daith yn mynd â chi drwy ystafelloedd wedi'u haddurno mewn arddulliau Jacobaidd, Sioraidd a Fictoriaidd, pob un yn adlewyrchu gwahanol gyfnod ym mywyd maith y tŷ.

Tŷ LLAWN YSBRYDION

Yn gartref i'r teulu Wynn pwerus am dros ddwy ganrif, mae Castell Gwydir yn Llanrwst yn llawn hanes. Wedi'i adfer ar ôl blynyddoedd o esgeulustod, mae'r plasty caerog Tuduraidd hwn yn enwog am ei gysylltiadau brenhinol (bu Brenin Siarl I a Brenin Siôr V yn aros yma), ei nodweddion gwreiddiol trawiadol fel yr Ystafell Fwyta â'i phaneli derw a'r ysbrydion sy'n cerdded ei choridorau. Mae Capel Gwydir Uchaf gerllaw yn ymddangos yn syml o'r tu allan, ond mae'n werth mynd i mewn i weld y nenfwd sydd wedi'i baentio'n gywain.

GWELD Y GWNEUTHURWYR

Mae gennym ni ganrifoedd o dreftadaeth ddiwydiannol i'w chanfod hefyd. Cychwynnwcw yn y brynau uwch Penmaenmawr, lle gwelwch chi 'ffatri fwyell' o Oes y Cerrig oedd yn gwneud offer sydd wedi'u canfod ar hyd a lled Prydain. Yna ewch ymlaen i Fwyngloddiau Copr y Gogarth, lle cloddiodd gweithwyr yr Oes Efydd rwydwaith o dwneli tanddaearol dros 3,500 o flynyddoedd yn ôl. Yn olaf, brasgamwch ymlaen i'r Chwyldro Diwydiannol, pan greodd y peiriannwr Thomas Telford bont grog syfrdanol hollbwysig Conwy. Yna ewch i weld y diwydiant ar waith ym Melin Wlân Trefriw, a sefydlwyd yng nghanol y 19eg Ganrif ac sy'n dal i ffynnu.

MAMIAITH

Mae gan fwthyn cerrig syml sy'n swatio'n ddwfn yn y brynau uwch Penmachno arwyddocâd diwylliannol enfawr yng Nghymru. Tua'r flwyddyn 1545, yn Nhŷ Mawr Wybrnant, sydd bellach dan ofal Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ganed yr Esgob William Morgan, a helpodd i ddiogelu dyfodol ein hiaith drwy gyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg am y tro cyntaf.



BETWS A'I BETHAU

CYMYDOG MEWNDIROL LLANDUDNO A'R PORTH I BARC CENEDLAETHOL ERYRI. DYMA EIN RHESTR O WYTH O BETHAU Y MAE'N RHAI D CHI EU GWELD A'U GWNEUD YM METWS-Y-COED A'R CYFFINIAU.

TAITH AR Y TRÊN

Crwydrwch ar y cledrau i gael y cyflwyniad gorau i Fetws-y-coed. Ewch ar y daith 40 munud yn y trên ar hyd llinell Dyffryn Conwy o Landudno, ac fe ewch chi heibio i rai o olygfeydd hyfrytaf o lan yr afon a'r mynyddoedd yng Ngogledd Cymru.

TAITH (ARALL) AR Y TRÊN

Mae pobl sy'n frwd am drenau wrth eu boddau ag Amgueddfa Reilffordd Dyffryn Conwy, sydd yn union wrth ymyl y brif orsaf. Ewch am daith wyth munud o hyd ar drên stêm bychan drwy erddi wedi'u tirlunio, ewch i amgueddfa llawn arteffactau hynod ddiddorol a phorwch drwy'r casgliad enfawr o fodelau trên yn y siop.

GWYBOD EICH STWFF

Un o'r lleoedd cyntaf y dylech chi fynd iddo yw Canolfan Wybodaeth Parc Cenedlaethol Eryri, sy'n llawn gwybodaeth am bopeth i'w weld a'i wneud yn lleol. Mae yno hefyd gyflwyniad ffilm gwyh sy'n cynnwys darn a ffilmwyd gan ddrôn uchder mawr a chopar rhithwir sy'n ail-greu'r golygfeydd 360 gradd a geir o gopa'r Wyddfa.

DEWCH AM DRO...

Ar droed neu ar eich beic, neu dewiswch o blith pob math o weithgareddau awyr agored. Mae yna reswm da pam fod Betws-y-coed yn boblogaidd beth bynnag fo'r tymor. Mae'n ganolbwynt llewyrchus ar gyfer cerddwyr, beicwyr, caiacwyr a phob math arall o selogion awyr agored.

MAE'R LLAWENYDD YN LLIFEIRIO

Gwylwch y dyfroedd gwyllt yn y Rhaeadr Ewynnol, lle mae Afon Llugwy'n plymio drwy sianel greigiog mewn cyfres o raeadrau blith draphlith. Dyma un o fannau prydferth enwocaf Cymru, ac mae ar ei orau yn yr hydref, y gaeaf a'r gwanwyn. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dod â'ch camera.

SIOPIO HEB STOPIO

Porwch drwy siopau bychain sy'n gwerthu eitemau crefft unigryw sy'n deillio o orffennol Betws-y-coed fel trefedigaeth i artistiaid yn y 19eg Ganrif, neu prynwch bopeth y byddwch ei angen i gael antur awyr agored yn Eryri. Mae Betws Brysur yn baradwys siopa ac yn lle gwyh i gael gafael ar yr anrhegion Nadolig arbennig yna.

DRINGO DRWY GYMDEITHAS

Ewch am y coed gyda'ch ffrindiau a'ch teulu yn Zip World Fforest i fynd i'r afael â rhaffau, rhwydi a siglenni sy'n hongian o'r nenfwd o goed. Mae yno hefyd reid tobogan y Fforest Coaster a'r Plummet 2 newydd sy'n gwmp 100 troedfedd/30 metr drwy drapddor, sef y profiad agosaf at neidio rhydd a gewch chi heb fynd mewn awyren.

CAFFIS A CHORAU

Mae crwydro Betws yn siŵr o godi awydd bwyd arnoch chi, felly ewch am damaid a diod i un o gaffis a bwyta'r dref. Tafarn fywiog Y Stablau yw un o'r goreuon, yn cynnig cerddoriaeth fyw a digwyddiadau arbennig yn ogystal â bwyd a diod lleol. Cadwch lygad am gyngherddau côr meibion gyda'r nos yn yr haf yn Eglwys y Santes Fair.



DYMA
DDECHRAU'R
ANTUR

DYDDIAD I'R DYDDIADUR

DYMA RAI O WYLLIAU A DIGWYDDIADAU BETWS-Y-COED YN 2019. I GAEL YR HOLL WYBODAETH, EWCH I DUDALENNAU 34/37.

8 MEHEFIN
RAS ANTUR QUEST
Betws-y-coed
questadventureseries.com

25-31 HYDREF
CALAN GAEAF
'FFOREST FFEAR'
Zip World Fforest, Betws-y-coed
zipworld.co.uk

2-3 TACHWEDD
GWŶL GERDDED ERYRI
breeseadventures.co.uk

Queneiddiaue GWYRDD

YMA, FE ALLWCH CHI FOD DAFLIAD CARREG O'R MÔR, AC ETO'N CERDDED DRWY'R COED YN AWYR IACH LLAWN GWYRDDNI GOGLEDD CYMRU. GALL Y RHEINY SYDD WRTH EU BODDAU Â CHEFN GWLAD FANTEISIO AR BOPETH SYDD GAN YR AWYR AGORED I'W GYNNIG.

Ar un ochr i Ddyffryn gwyrdd Conwy mae Parc Coed Gwydyr, tirwedd sy'n rhwyllwaith o lwybrau i gerddwyr hamddenol a difrifol – heb sôn am lynnoedd cudd a thoreth o fywyd gwyllt. Mentrwch ymhellach i'r gorllewin ac fe gyrhaeddwch chi uchderau Eryri, gyda'r copaon creigiog a'r teithiau mynyddig clasurol.

Ar ochr arall y dyffryn fe welwch chi dirwedd wahanol iawn Mynydd Hiraethog, sy'n llwyfandir gwyllt, uchel o goedwigoedd, rhosydd a grug o amgylch Llyn Brenig, sy'n ganolbwynt i gerddwyr a selogion awyr agored.

A pheidiwch ag anghofio'r arfordir. Sut allech chi, gyda bron i 35 milltir o Lwybr Arfordir Cymru byd-enwog i'w archwilio, yr holl ffordd o Lanfairfechan i Fae Cinnel?

I DDYSGU MWY AM
WEITHGAREDDAU
AWYR AGORED A CHEFN
GWLAD, TROWCH Y DUDALEN





GWELD SÊR

Ewch am daith i wyllo'r sêr yng Ngwarchodfa Awyr Dywyll Eryri. Diolch i lefelau isel o lygredd golau ac eangdiroedd maith, dyma un o ddim ond 11 o warchodfeydd tebyg yn y byd – y lle perffaith i syllu ar y sêr, gyda'r Llwybr Llaethog, y clystyrau o sêr a'r sêr gwib i gyd i'w gweld ar noson glir.

ALLAN I CHI A

CERDDED, GWYLIO BYWYD GWYLLT, BEICIO, SYRFFIO...DYMA YCHYDIG YN UNIG O RESYMAU I CHI FYND ALLAN I GRWYDRO.



ARDAL ANTUR

Mae gogledd Cymru'n cael enw da fel prif ardal antur y DU oherwydd lleoedd fel Adventure Parc Snowdonia a Zip World Fforest. Mae'r tonnau'n cyrraedd fel cloc yn Adventure Parc Snowdonia, lagŵn syrffio fewndirol unigryw Dyffryn Conwy, lle mae technoleg chwyldroadol yn cynnig y don berffaith. Mae yno hefyd ardal chwarae meddal i'r plant bach, gyda nifer o ddatblygiadau newydd ar y gweill ar gyfer 2019, gan gynnwys canolfan antur dan do. Trowch i dudalen 32 am fwy o fanylion.

Ychydig i lawr y dyffryn, mae Zip World Fforest, sef antur yn yr awyr gyda gwifrau gwib, reid tobogan ac efelychydd parasiwt. Ac yng Nghanolfan Sgïo ac Eirfyrddio Llandudno, rydych chi'n siŵr o gael hwyl ar y llethrau beth bynnag fo'r tywydd.



ANIFEILIAID ANHYGOEL

Gwirioni ar fywyd gwyllt? Dewch â'ch sbienddrych gyda chi i chwilio am drigolion Gwarchodfa RSPB Conwy, sy'n cynnwys y rhostog gynffonddu, y gornchwigen a thelor yr hesg. Ewch i Lyn Brenig i gael cipolwg ar greaduriaid prin fel gwiwerod coch a gweilch, neu ewch am grwydr tua Pen y Gogarth, Llandudno i gyfarfod ein geifr Cashmiri preswyl. Fe allwch chi hefyd weld bwystfilod dieithr yn Sŵ Fynydd Gymreig Bae Colwyn, yn ogystal ag anifeiliaid fferm, tylluanod ac adar ysglyfaethus ym Mharc Fferm Bodafon yn Llandudno.

FAINT FYNNIR O FEICIO

Mae yna lwybrau bendigedig o fwdlyd i'w canfod oddi ar y ffyrdd yn ein brynau a'n coedwigoedd. Ewch draw i Benmachno neu Barc Gwledig Gwydyr i brofi rhywfaint o lwybrau beicio mynydd mwyaf trawiadol a phrydferth y DU. I feicwyr ffordd, mae yna eltydd digon i hollti ysgyfaint yn ogystal â llwybrau teuluol hamddenol ar Lwybr Beicio Conwy, sy'n 30 milltir o daith arfordirol bron yn gwbl ddi-draffig.



UCHOD AC ISOD

Antur Danddaearol Go Below ger Betws-y-coed yw'r profiad tanddaearol dramatig eithaf. Ymysg cyn fwyngloddiau yng nghrombil mynyddoedd Eryri, mae yna fyd o lynnoedd glas dwfn, gwifrau gwib, pontydd, ysgolion ac abseiliau. Mae'n gwrw rhwystrau heb ei ail. Yn ôl uwch y ddaear, beth am fynd i'r afael ag ucheldir Eryri yng Nghanolfan Fynydd Genedlaethol Plas y Brenin, Capel Curig, lle mae yna bob math o gyrsiau a phrofiadau awyr agored.

GYRRU GWYLLT

Bodlonwch eich angen am gyflymder yn GYG Karting yng Ngherrigydrudion. Dyma gylchffordd rasio ceir gwyllt fwyaf y DU, sy'n cynnig gwefr uchel-octan i yrrwyr o bob oed.

GERDDI GODIDOG

Mae Gerddi Bodnant yn Nyffryn Conwy yn un o drysorau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae'n gwasgu amrywiaeth garddwriaethol anhygoel i mewn i'w 80 erw/32 hecтар; o derasau Eidalaid, nodweddion dŵr celfydd a dolydd trwsiadus i gwlwm gwyllt Y Glyn. Nid yw'n syndod dysgu y cafodd fersiwn newydd o The Secret Garden gyda Julie Walters a Colin Firth, fydd yn cael ei rhyddhau yn 2019, ei ffilmio'n rhannol yma. Ar draws y dyffryn mae Gerddi Dŵr Conwy, canolfan ddyfrol gyda llynnoedd pysgota, tŷ ymlusgiaid a theithiau natur.



BLAS LLEOL

MAE EIN CEFN GWLAD,
EIN HAFONYDD A'N
MOROEDD DILYCHWIN
YN FFYNONELLAU
GWERTH CHWEIL O
FWYD A DIOD FFRES.
DYMA FLAS I CHI.



Y GORAU O GREGYN GLEISION

Wedi'u cribinio â llaw o Foryd Conwy, yn yr un modd yn union ag y gwnaed ers canrifoedd, mae cregyn gleision bendigedig Conwy yn adnabyddus am eu blas - y gorau yn y DU yn ôl pob sôn. Galwch heibio'r siop ar yr harbwr i brynu'r cregyn gleision ar eu gorau, yna ewch draw i amgueddfa Gregyn Gleision Conwy i ddysgu mwy am y pysgod cregyn blasus yma.



GWLEDD O WYL

Gwledd Conwy, sy'n cael ei chynnal bob mis Hydref, yw gŵyl fwyd fwyaf a gorau Gogledd Cymru. Mae strydoedd hanesyddol y dref yn cael eu trawsnewid wrth i gynhyrchwyr ymgasglu i arddangos eu nwyddau, ochr yn ochr â marchnad fwyd leol, gwerthwyr bwyd ar y stryd ac arddangosiadau coginio. Yn cwblhau'r arlwy mae rhaglen brysur o gerddoriaeth fyw, celf a chrefftau a diweddsglo ffrwydrol gyda than gwyllt yn goleuo'r awyr uwch tref Conwy.

ARWYR LLEOL

Mae yna gig gwerth chweil yn Edwards o Gonwy. Mae'r siop gigydd sydd wedi ennill sawl gwobr yn cynnig darnau blasus o gig eidion Cymreig a chig oen y glastraeth lleol, yn ogystal â selsig a phasteiod cartref traddodiadol. Os mai eisiau bwyd i fynd ydych chi, mae yno ddetholiad gwych o frechdanau ffres hefyd. Am fwy o ddanteithion lleol, ewch draw i Ganolfan Groeso Llandudno, lle mae cynnyrch o bob cwr o'r ardal ar gael ochr yn ochr â llawlyfrau, mapiau a chyngor teithio.

IECHYD DA

Awydd llymaid? Ewch am daith dywys o amgylch Gwinllan Conwy i ddysgu sut yn union y maen nhw'n cynhyrchu eu pum math o win (a blasu un neu ddau tra byddwch chi wrthi). Os mai jin yw'r ddiod i chi, mae gennych chi ddewis o ddwy ddistyllfa, sef North Star a Snowdonia. Mae'r ddwy'n cynhyrchu gwirodydd sy'n defnyddio cynhwysion a gasglwyd drwy chwilot a cefn gwlad Gogledd Cymru, ac wedi ennill gwobrau am wneud hynny.



BETH SY'N NEWYDD?

CADWCH LYGAD AM Y DATBLYGIADAU NEWYDD HYN YN 2019



CANOLFAN DDRINGO'R BOATHOUSE

CODI HWYL

Mae hen Orsaf Bad Achub Llandudno bellach yn gartref i Ganolfan Ddringo'r Boathouse, fydd yn agor y fuan yn 2019. Bydd canolfan ddringo ddiweddaraf gogledd Cymru'n apelio at bawb, yn ddechreuwr ac yn arbenigwr fel ei gilydd. Mae yna tua 300 metr sgwâr (3,230 troedfedd sgwâr) o arwyneb dringo gyda waliau arweiniol 8m (26 troedfedd), man clogfaenio to a system ogofâu llawn llwybrau wedi'i chreu i mewn yn y to.

AR FRIG Y DON

O'r haf 2019 ymlaen, bydd Surf Snowdonia yn Nyffryn Conwy yn troi'n Adventure Parc Snowdonia. Peidiwch â phoeni, syrffwyr. Bydd y lagŵn syrffio mewndirol 300m (984tr) - y cyntaf yn y byd - yn parhau'n rhan allweddol o'r atyniad. Mae'r ailenwi/ailfrandio'n adlewyrchu'r amrediad ehangach o weithgareddau fydd ar y safle, sef canlyniad datblygiad gwerth tua £1.6m. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Adrenalin Dan Do** - profiad dringo ogofâu artiffisial gwefreiddiol wedi'i ysbrydoli gan natur.
- **Archwilio'r Awyr Agored** - gweithgareddau i'r teulu yn yr awyr agored, gan gynnwys trac ponciog, llwybr beicio mynydd, clogfaenio, llwybr ffitrwydd hwyliog a maes chwarae natur.
- **Gwasanaeth Gofalwr Antur** - i annog ymwelwyr i archwilio gweithgareddau cyffrous oddi ar y safle dan arweiniad hyfforddwr, ac ymweld ag atyniadau blaenllaw eraill yr ardal.



RHOI DYFODOL NEWYDD I'R GORFFENNOL

Mae Amgueddfa ac Oriel Llandudno wastad wedi bod yn gist drysor o bopeth lleol - o'r cyfnod cyn hanes ac oes y Rhufeiniaid i dwf Llandudno fel cyrchfan wyliau glan môr.

Ar hyn o bryd, mae wrthi'n cael ei thrawsnewid yn llwyr er mwyn paratoi i ailagor yn ystod gaeaf 2019 fel atyniad treftadaeth blaenllaw pob tywydd fydd ar agor drwy gydol y flwyddyn. Mae uchafbwyntiau'r aildatblygiad yn cynnwys orielau, arddangosfeydd a dehongliadau newydd, hwyl i'r teulu a gweithgareddau cyffrous, canolfan gymunedol a threftadol y gallwch alw heibio iddi, man lluniaeth a gwell mynediad i bawb drwyddi draw.



PENNOD NEWYDD YN HANES CONWY

Mae Sir Conwy'n gyfoeth o dreftadaeth, ond mae ar fin ychwanegu at ei asedau diwylliannol. Mae Canolfan Ddiwylliant Conwy, ddylai agor yn ystod hydref 2019, wedi'i leoli mewn adeilad cyfoes trawiadol gyda golygfeydd dros gastell a muriau tref canoloesol Conwy.

Mae'n cynnwys canolfan gelfyddydau a threftadaeth gyda dehongliadau rhyngweithiol a chasgliadau hanesyddol, yn ogystal â llyfrgell newydd a chartref i Archifau Conwy. I ymwelwyr, dyma'r man cychwyn delfrydol i ddysgu am hanes Sir Conwy - ac mae hefyd yn le gwych i fwynhau paned gyda Chastell syfrdanol Conwy'n gefndir.

Ariannwyd gan: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Llywodraeth Cymru, Cronfa Datblygu Cymunedol, Gwynt y Môr mewn partneriaeth gyda Ymddiriedolaeth Celfyddydau Conwy a Chyngor Celfyddydau Cymru.

GYDA'R NOS

5 PROFIAD GYDA'R NOS WYCH

O DAFARNDAI GLAN MÔR BYWIOG I BROFIADAU SGÏO HWYR Y NOS AR Y GOGARTH, DYMA DDEWIS SWYDDOG MARCHNATA TWISTIAETH CBSC, JASMIN KOFFLER, O'R PUM PROFIAD GYDA'R NOS GORAU. AM FWY O SYNIADAU GWYCH, DILYNWCH NI AR [FACEBOOK.COM/DEWCHILANDUDNO](https://www.facebook.com/dewchilandudno)

1 I'R DIGRIFWYR...

Mae nosweithiau comedi'n hynod boblogaidd yma yn Llandudno a'r cyffiniau, gyda nifer o dafarndai'n cynnal nosweithiau comedi rheolaidd. Ewch draw i Fragdy'r Gogarth neu dafarn The Station ym Mae Colwyn ar nos Sadwrn ola'r mis am noson o chwerthin ei hochr hi. Mae comediwyr gwadd y gorffennol wedi cynnwys ein comediwr o Gymru, Tudur Owen, yn ogystal â Dan Nightingale - un o sêr y cylch comedi a gafodd adolygiadau gwych yng Ngwyl Fringe Caeredin yn 2018. Dysgwch fwy yn [greatormebrewery.co.uk](https://www.greatormebrewery.co.uk) neu [facebook.com/standupattheseaside](https://www.facebook.com/standupattheseaside)

2 I'R RHAI SY'N CARU'R THEATR....

Does dim byd tebyg i'r byd adloniant! Gall mynychwyr selog y theatr fwynhau perfformiadau hudolus ac ysbrydoledig yn Venue Cymru Llandudno - theatr, canolfan gynadleddau a chyfleuster digwyddiadau sy'n agos at ganol Llandudno. Mae'n dangos ffefrynnau'r West End yn rheolaidd, yn ogystal â chyngherddau cerdd a pherfformiadau theatr. Am restr gyflawn o'r sioeau a'r digwyddiadau sydd i ddod, ewch i [venuecymru.co.uk](https://www.venuecymru.co.uk)

3 I'R PARTI'WYR...

Mae yna fywyd nos bywiog yn Llandudno gyda nifer o fariau poblogaidd, gan gynnwys Fountains, The Lily a The Palladium (sy'n fwy adnabyddus fel Wetherspoons Llandudno). Cadwch lygad am gynigion tymhorol drwy gydol y flwyddyn ac ewch i fwynhau coctel, cerddoriaeth fyw ac ambell i noson karaoke. Ar ddiwedd y noson, bydd y parti'n parhau yn nau glwb nos y dref, sef Club 147 a Broadway Boulevard!

Am noson fwy hamddenol, ewch i un o'r tafarndai cwrw traddodiadol, gan gynnwys The Kings Arms, The Cottage Loaf (Llandudno) a The Erskine Arms (Conwy) - pob un ag awyrgylch gyfeillgar hamddenol braf. Wedi'u lleoli fel arfer mewn adeiladau cyfnod, mae'r tafarndai hyn yn llawn cymeriad a swyn, yn ailadrodd hanesion cyrchfannau gwyliau Fictoriaidd a Chanoloesol Llandudno a Chonwy.

4 I'R DEWRION...

Ydych chi'n ddigon dewr i dreulio'r nos mewn castell llawn ysbrydion? I'r rhai hynny ohonoch chi sy'n mwynhau straeon hunllefus ac ymweliadau arswydus, ewch am daith dywys i Gastell Gwrych, lle cewch chi ymchwilio i straeon am ysbrydion bondigrybwyll sy'n crwydro'r castell yn y nos. Ar ôl cael taith dywys, bydd gwesteion yn cael eu harwain ar wynos o amgylch tir y castell a'r tŵr sydd wedi'i adfer. Ewch i [gwrychcastle.co.uk](https://www.gwrychcastle.co.uk) am fwy o fanylion - os meiddiwrch chi!

5 I'R ANTURWYR...

Wedi trefnu gwyliau sgïo ac eisiau ymarfer rhywfaint cyn mynd? Mae Llandudno Snowsports Centre yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau ar y llethr PermaSnow - sgïo, eirafyrddio a hyd yn oed eira-diwbio! Wedi'i leoli ar y Gogarth, mae'r ganolfan yn cynnig sesiwn sgïo hwyr bob nos lau tan 10pm. Mwynhewch noson o sgïo gan edmygu golygfeydd godidog Bae Llandudno yn y nos! Dysgwch sut i fynd ar y piste yn [jnllandudno.co.uk/slopes/ski](https://www.jnllandudno.co.uk/slopes/ski)

AM FWY O WYLIAU A DIGWYDDIADAU GWELER DROSODD



Quentilian

ADIGWYDDIADAU 2019

Mae ein rhaglen lawn o wyliau a digwyddiadau'n rhedeg drwy gydol y flwyddyn.
Dyma flas i chi o'r hyn fydd yn digwydd yn 2019. I gael rhagor o fanylion
am ddigwyddiadau yn Sir Conwy, ewch i

DEWCHILANDUDNO.ORG.UK

Y GAELF

IONAWR

**6 TAITH CEIR
MINI O'R
WIRRAL I
LANDUDNO**
Promenâd Traeth
y Gogledd
[facebook.com/
WirralMinis](https://facebook.com/WirralMinis)

**12-13
CYMERWCH
RAN 2019**
Venue Cymru,
Llandudno
venuecymru.co.uk

**26-27 GWYLIO
ADAR YR ARDD
FAWR: HWYL
I'R TEULU**
RSPB Conwy
rspb.org.uk
01492 584091

**10 RAS
HWYL 10K
ER COF AM
NICK BEER**

Promenâd Traeth y Gogledd, Llandudno
nwrrc.co.uk



**16
RALI
CAMBRIA**
cambrianrally.co.uk

CHWEFROR

**LLANDUDNO A
DYFFRYN CONWY**
Mae 64ain Rali Cambria
Dewch i Gonwy yn rownd
newydd o Bencampwriaeth
Rali mawreddog MSA
Prydain – a dyma
ddigwyddiad agoriadol
y gyfres. Mae hefyd
yn rhan o Gyfres Rali
BTRDA Jordon Surfacing,
Pencampwriaeth Rali Pirelli
Cymru a Phencampwriaeth
ANWCC. Mae'r gyrwyr a'r
gwylwyr wrth eu boddau,
gan ei fod yn digwydd yng
nghoedwigoedd clasurol,
heriol Gogledd Cymru.



**22
PENCAMPWRIAETH
Y CHWE GWLAD
DAN 20: CYMRU
V LLOEGR**

Stadiwm Zip World,
Parc Eirias, Bae Colwyn
wru.wales/tickets

GWANWYN

MAWRTH

**15 PENCAMPWRIAETH
Y CHWE GWLAD
DAN 20: CYMRU
V IWERDDON**
Stadiwm Zip World,
Parc Eirias, Bae Colwyn
wru.wales/tickets

**19-24 SNWCER Y BYD:
PENCAMPWRIAETH
CHWARAEWYR
LADBROKES**
Venue Cymru, Llandudno
venuecymru.co.uk

**23
TAITH
GERDDED
CEWRI'R
GOGARTH**
LLANDUDNO



breeseadventures.co.uk

26 FFAIR HADAU CONWY
Stryd Fawr, Conwy
conwybeekeepers.org.uk

31 MARATHON CONWY
Promenâd Llandudno
alwaysaimhigh events.com

EBRILL

**7 HANNER MARATHON
LLWYBR LANDUDNO**
Y Fach, Llandudno
runwales.com/events

**14 HANNER MARATHON
YR ARFORDIR**
Porth Eirias, Bae Colwyn i Prestatyn
bespokefitnessandevents.co.uk



**GŴYL 1940AU
BAE COLWYN**
facebook.com/FortiesFestival

MAI

**4-6 STRAFAGANSA
FICTORAIDD LLANDUDNO**
victorian-extravaganza.com

**4-6 GŴYL GLUDIAN
LLANDUDNO**
Caeau Bodafon, Llandudno
llantransfest.co.uk

**17-19 GŴYL GERDDED
TREFRIW**
trefriwwalkingfestival.co.uk

**19 HANNER
MARATHON ERYRI**
Llanrwst
runwales.com

30 CANAPÉS YN Y CASTELL
Taith dywys VIP o amgylch Castell
Conwy gyda'r nos
01492 577566



**11 PROM
A MWY**

Y Promenâd, Bae Colwyn
promxtra.co.uk

COFIWCHI! Lluniwyd y rhestr hon ym mis Tachwedd 2018, a gallai'r manylion fod wedi
newid. Felly gwiriwch y dyddiadau a'r amseroedd os ydych chi'n bwriadu mynd i ddigwyddiad.

YR HAF

MEHEFIN

**1 DIWRNOD
PROM DEGANWY**
O 11am tan 4pm
[facebook.com/
DeganwyPromDay](https://facebook.com/DeganwyPromDay)

**1-2 PENWYTHNOS
MORLADRON
CONWY**
Cei Conwy
conwypirates.com

**4-7 RALI'R TRI
CHASTELL**
Rali ceir clasurol
yn Llandudno
three-castles.co.uk

**9-10 PENWYTHNOS
MORLADRON RHOS**
Llandrillo-yn-Rhos
conwypirates.co.uk



questadventureseries.com/race/quest-wales

Mae Quest Cymru, sy'n rhan o Gyfres Antur Quest, yn dychwelyd i dref ddelfrydol Betws-y-coed.

Dyluniwyd y llwybrau i fod yn heriol ac yn ysbrydoledig ac yn brawf o ddynwch ar gyfer unrhyw unigolyn sy'n mwynhau'r awyr agored. Gydag amryw o lwybrau i ddewis ohonyn nhw, mae Quest yn mynd â chi ar antur i eithafion eich gallu corfforol. Mae teithiau beic caled, llwybrau rhedeg anhygoel a thaith caiaic anghysbell ar lyn ym Mharc Cenedlaethol Eryri i gyd o'ch blaen.



**28-30
HER ERYRI** BETWS-Y-COED
[BREESEADVENTURES.CO.UK](https://breezeadventures.co.uk)

**29 SIOE WLEDIG
LLANRWST**
sioellanrwstshow.co.uk

GORFFENNAF



**YN FYW YN
STADIWM ZIP WORLD
JESS GLYNNE**
Stadiwm Zip World,
Bae Colwyn 01492 872000
venuecymru.co.uk

**20-27 GŴYL
GERDDORIAETH
GLASUROL CONWY**
conwyclassicalmusic.co.uk

22-27 CYMRU 360
Antur beicio mynydd traws gwlad chwe diwrnod o hyd. Mae diwrnod tri yn cychwyn ym Metws-y-coed
wales360.com

**25 CANAPÉS
YN Y CASTELL**
Taith dywys VIP o amgylch Castell Conwy gyda'r nos
01492 577566



27-28 AWST PENCAMPWRIAETHAU CENEDLAETHOL SCORPION
Bae Llandudno llandudno-sailing.com

2-10 YR EISTEDDFOD AWST GENEDLAETHOL

LLANRWST

Eisteddfod Genedlaethol Cymru yw prif ddathliad celfyddydol y wlad. Mae'n ŵyl deithiol flynyddol sy'n denu tua 150,000 o bobl i leoliadau ar hyd a lled Cymru, ac eleni, mae'n dod i Llanrwst yn Nyffryn Conwy. Yn llawn traddodiadau, mae hefyd yn croesawu popeth sy'n newydd ac yn ifanc yn niwylliant Cymru. Ac mae croeso i bawb, gyda chyfleusterau cyfieithu ar gael i'r di-Gymraeg.

eisteddfod.wales/2019-eisteddfod



AWST

**3-4 CYSGU ALLAN
YN Y GWYLLT**
RSPB Conwy rspb.org.uk
01492 584091

10 SIOE EGLWYSBACH
eglwysbachshow.co.uk



**18 TAITH MG YR
WYDDFA**
Yn cychwyn ar Bromenâd
Llandudno llandudnomgoc.org

**18-21 CC MORGANNWG
V CC SWYDD
GAERHIRFRYN**
Clwb Criced Bae Colwyn,
Llandrillo-yn-Rhos
glamorgancricket.com

**22 CANAPÉS
YN Y CASTELL**
Taith dywys VIP o amgylch Castell
Conwy gyda'r nos 01492 577566

**24-26 (12PM-6PM)
GŴYL ROC A
PHOP, PROMENÂD
LLANDUDNO**
Gŵyl ryngwladol am ddim a
gyflwynir gan TVWales, gydag
artistiaid recordio sy'n cychwyn
dod i'r amlwg. tvwales.co.uk



**24-26 (6:30PM-9PM)
TVWKIDS**
Promenâd Llandudno.
Cystadleuaeth i gantorion
a cherddorion ifanc mewn
partneriaeth ag Anglesey Music.
tvwales.co.uk

**30-31 GORYMDAITH
SIOE OLEUADAU
GOLDWING,
LLANDUDNO**
llandudnolightparade.co.uk
Nos Wener a dydd Sadwrn.

YR HYDREF

MEDI

13 FFAIR FÊL CONWY
Stryd Fawr, Conwy
conwybeekeepers.org.uk

13-14 ANYFISH, ANYWHERE
Pencampwriaeth agored deuddydd i
bysgotwyr môr yn nhref wyliau boblogaidd
Llandudno. anyfishanywhere.com

13-15 LLAWN07
Gŵyl aml-gelfyddyd am ddim.
llawn.org

HYDREF

3-6 RALI CYMRU GB
walesrallygb.com



**26 RAS 10K CALAN GAEAF
PORTH EIRIAS A RAS HWYL
1K I BLANT** Bae Colwyn
bespokefitness.niftyentries.com

TACHWEDD



**GŴYL GORAWL
GOGLEDD CYMRU**
Mae'r ŵyl flynyddol boblogaidd hon yn croesawu corau o bedwar ban byd. Wedi'i threfnu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, dyma un o brif wyliau corawl Cymru. Yn enwog am ei awyrgylch gyfeillgar, mae wedi tyfu o nerth i nerth. Mae'n ddathliad bendigedig o gerddoriaeth sy'n addas ar gyfer unrhyw gôr-gantor, gydag amrywiaeth o gategoriâu cystadlu ar draws y penwythnos.
01492 575943 northwaleschoralfestival.com

**9 HER LWYBR
BETWS-Y-COED**
trailbetws.com/the-challenge

**14-17 FFAIR NADOLIG
LLANDUDNO**
llandudnochristmasfayre.co.uk

Y GAEAF

RHAGFYR

**7 RAS HWYL
SIÔN CORN 5K
LLANDUDNO**
[bespokefitnessand
events.co.uk](https://bespokefitnessandevents.co.uk)

**7 GORYMDAITH
NADOLIG
LLANDUDNO**
llandudno.gov.uk

**14 GŴYL GAEAF
CONWY**
conwytownevents.co.uk

COFIWCHI! Lluniwyd y rhestr hon ym mis Tachwedd 2018, a gallai'r manylion fod wedi newid. Felly gwiriwch y dyddiadau a'r amseroedd os ydych chi'n bwriadu mynd i ddigwyddiad.